



# Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

## EHANGU DIMENSIYNAU DIGIDO:

### Profiad y Smithsonian

Diane M. Zorich, Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Rhaglen Ddigidol, [Sefydliad Smithsonian](#)

Sefydliad Smithsonian, a sylfaenwyd ym 1864, yw'r ganolfan ymchwil, amgueddfaol, ac addysg fwyaf yn y byd. Mae'n gartref i fwy na 154 miliwn o wrthrychau / sbesimenau sydd o ddi-ddordeb diwylliannol, hanesyddol, a gwyddonol mewn 19 o amgueddfeydd, 9 sefydliad ymchwil, gerddi botaneg niferus, a swê cenedlaethol.

Mae maint ac amrywiaeth casgliadau'r Smithsonian yn cynnig her ddigido unigryw. O'i ymdrechion digido cynharaf yn y 1970au, mae'n parhau i ddatblygu ei strategaethau, dulliau, a pholisïau digido i gwrdd â'r her, ac i greu casgliadau digidol a fydd yn ateb anghenion y dyfodol. Cymerwyd cam pwysig i'r cyfeiriad hwn yn 2009 gyda chreu Swyddfa'r Rhaglen Ddigidol (DPO).

Caiff mandad y DPO – i weithio ar draws y Smithsonian er mwyn cynyddu ansawdd, maint, ac effaith y casgliadau wedi'u digido – ei weithredu drwy ddwy raglen: masddigido a digido 3D. Ar hyd y blynyddoedd, wrth i dimau'r ddwy raglen feithrin arbenigedd, maen nhw wedi dod wyneb yn wyneb â nifer o amgylchiadau newydd, ac maen nhw'n parhau i addasu i gwrdd â'r her. O ran y rhaglen 3D, mae hyn yn golygu creu isadeiledd cadarn i awtomeiddio'r agweddau adnoddau-ddwys ar ddigido 3D, a darparu offer sy'n hwyluso creu cynnwys, rheoli, awduro, a chynhyrchu asedau 3D. Yn achos y rhaglen fasddigido, mae'n golygu meddwl o'r newydd am y cynllun gwaith (gan fod cau cyfleusterau yn sgil y pandemig yn cyfyngu ar fynediad corfforol i'r casgliadau), gan symud i ffwrdd o ddelweddu gwrthrychau i greu cofnodion digidol a chyfoethogi data.

Ym mis Chwefror 2020, rhoddodd y Smithsonian bolisi mynediad agored ar waith sy'n gweddnwedd ein cenhadaeth. Ar hyn o bryd mae Menter Mynediad Agored y Smithsonian yn sicrhau bod tair miliwn o asedau yn ei gasgliadau digidol ar gael fel CC0 h.y. gellir eu defnyddio am ddim heb ganiatâd. Mae mynediad agored yn ehangu gwaith digido'r Smithsonian i'w ddimensiynau llawnaf, gan ei wneud yn rhan anhepgor o ymdrechion y Sefydliad i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a mwy amrywiol, ar eu telerau nhw.

## **Bywgraffiad**

Cyfarwyddwr Swyddfa Rhaglen Ddigidol Sefydliad Smithsonian lle mae hi'n arwain tîm arbenigol sy'n digido casgliadau'r Smithsonian at ddefnydd y cyhoedd yw Diane Zorich. Mae hi'n goruchwyllo masddigido, digido 3D, a gweithgareddau asesu sy'n datblygu ac yn gwella prosesau digido ar draws y Sefydliad. Cyn ymuno â'r Smithsonian, roedd hi'n ymgynghorydd am fwy nag ugain mlynedd ym meysydd rheoli gwybodaeth, digido, a pholisi digidol mewn sefydliadau diwylliannol.